

(parhad o'r dudalen flaen)

Pam ydw i'n dweud fod yna obaith hyd yn oed i'r hunangyfiawn yn y ddameg hon? Oherwydd ei bod yn ein dysgu mai'r unig ffordd at Dduw i bechadur yw trwy syrthio ar ein bai, a gofyn i Dduw am faddeuant. A chan fod Iesu, wrth fynd i'r groes, wedi delio â phechod unwaith ac am byth, mae'r Efengyl yn gwahodd pobl hunangyfiawn, a'r rhai sydd wedi'u llethu gan euogrwydd, oll i edifarhau a derbyn maddeuant yng Nghrist, waeth beth yw natur eu pechod.

Dyma un sy'n caru maddau
i bechaduriaid mawr eu bai;
diolch iddo
byth am gofio llwch y llawr. (439 CFF)

Rhodri

Cofion a Llongyfarchion

Anfonwn ein cofion heddiw at Eurgain Pierce (Llanefydd) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Hyderwn dy fod yn cael gofal da yno Eurgain, ac y cei ddod adre yn y dyddiau nesaf. Parhawn i gofio hefyd am Dilys Jones (Nantglyn) sy'n cael gofal yn yr Infirmary, a hefyd Iorwen Roberts (Llansannan) sydd bellach wedi cael dod adref o'r ysbyty, ond y ddwy ohonynt wedi treulio cyfnodau go helaeth yn yr ysbyty dros y misoedd diwethaf. Gweddiwn y bydd y tair ohonoch, a phawb arall o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd ar hyn o bryd, yn teimlo'n well yn fuan iawn ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur i chi yn eich angen.

Llongyfarchiadau i Angharad Llwyd Roberts (Llansannan) ac Elis ar eu dyweddiad. Gweddiwn fendith Duw ar eu perthynas.

Llongyfarchiadau hefyd i Iwan Roberts (Llanefydd) ac Eryll ar enedigaeth mab, Wil Lloyd Roberts, brawd bach i Gwen. Diolchwn i Dduw am y rhodd yma eto, a dymunwn yn dda i chi fel teulu.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (9^{fed}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 30 Ionawr 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Dros yr wythnosau diwethaf mae cwestiynau mawr wedi codi ynglŷn ag ymddygiad gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth San Steffan. Clywir yr un cyhuddiadau'n cael eu gwneud mewn bwletinau newyddion rif y gwllith: bod y cyhoedd wedi cadw at gyfyngiadau tynn mewn sefyllfaoedd torcalonnus, tra'r oedd y rhai mewn grym yn rhagrithwyr. Yn gyhoeddus, roeddent yn uchel eu cloch yn cymell pawb i lynu at y cyfyngiadau a luniwyd ganddynt, ond y tu ôl i ddrysau caeëdig, roeddynt yn bihafio fel petaent uwchlaw'r gyfraith.

Yn naturiol, mae hyn wedi achosi embaras i'r Llywodraeth ac wedi gwneud i nifer feddwl yn ddwys ynglŷn â pha rinweddau yr ydym yn dymuno'u gweld yn ein harweinwyr. Ond i'r Cristion sy'n ceisio gwneud synnwyr o'r holl sefyllfa, siawns nad oes yna hefyd rybudd clir yng ngeiriau Iesu Grist yn y Bregeth ar y Mynydd:

“Pam yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy gyfaill, a thithau heb sylwi ar y trawst sydd yn dy lygad dy hun? Neu sut y dywedi wrth dy gyfaill, 'Gad imi dynnu allan y brycheuyn o'th lygad di', a dyna drawst yn dy lygad dy hun? Ragrithiwr, yn gyntaf tyn y trawst allan o'th lygad dy hun, ac yna fe weli yn ddigon eglur i dynnu'r brycheuyn o lygad dy gyfaill.” (Mathew 7:3-5)

Sylwch nad yw Iesu'n dweud bod cyfeirio at feiau (brycheuyn) rhywun arall ynddo'i hun yn anghywir. Wrth i ni ddarllen trwy'r Efengylau, gwelwn fod Iesu yn gyson yn tynnu sylw at ragrith, pechod a'r anghyfiawnder oedd o'i gwmpas. Y broblem yw gwneud hynny heb gydnabod ein heuogrwydd ni – barnu eraill heb gyffesu ein bod ni'n hunain yn haeddu barn hefyd.

Mor hawdd yw bod yn hunangyfiawn wrth gymharu'n hunain â phobl eraill! Ond mewn ffordd annisgwyl mae dysgeidiaeth Iesu yn Luc 18 yn rhoi rhybudd a gobaith, hyd yn oed i'r hunangyfiawn! Yn Nameg y Pharisead a'r Casglwr Trethi, mae'n disgwyliaid yn cael eu troi ben i waered. Nid y dyn 'duwiol' ac uchel ei barch ond y casglwr trethi, baw isa'r domen, sy'n mynd adref 'a'i berthynas gyda Duw yn iawn.' (Luc 18:14 beibl.net)

(parhad ar y dudalen gefn)

Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo y tu mewn i'r adeilad, os gwelwch yn dda.

Dydd Sul, Ionawr 30^{ain}

- **Oedfa yng Nghefn Berain am 9:30** o dan arweiniad y Parch. Brian Wright. Croeso cynnes i bawb. Cysylltwch ymlaen llaw â Meryl neu Eirian er mwyn sicrhau lle (post@brynamel.co.uk / eirianj123@gmail.com).
- **Oedfa ar YouTube** o dan arweiniad Rhodri am 10:30. (Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno. Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben, neu cysylltwch â Mair i gael DVD, CD neu gopi papur o'r gwasanaeth. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.)
- **Sgwrs a Gweddi ar ZOOM** o dan arweiniad Celfyn Williams am 6:00 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb. (Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Sgwrs a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Nos Lun, Ionawr 31^{ain} a Pnawn Gwener, Chwefror 4^{ydd}

- **'Gweddi'r Arglwydd'** – Y sesiwn cyntaf mewn cyfres o bump astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad gweithwyr Dorcas (ar ZOOM). Gellir ymuno naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl ac fe fyddai'n braf iawn cael cwmni ffrindiau newydd.

Dydd Sul, Chwefror 6^{ed}

- **Bore Bro Aled** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 10:30. Mae hon yn oedfa i'r Fro gyfan ond gan mai nifer cyfyngedig all fod yn bresennol, gofynnwn i chi roi eich enwau i Mair (manylion cysylltu ar y dudalen gefn) erbyn y nos Wener blaenorol er mwyn sicrhau lle, os gwelwch yn dda. Bydd yr oedfa yn cael ei **darlledu'n fyw o'r capel** ac ar gael i chi wrando arni unrhyw bryd wedi i'r

darllediad ddod i ben hefyd. (I ymuno, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Bore Bro Aled' fydd ar y dudalen flaen.) Cofiwch hefyd, trwy glicio unrhyw bryd ar y llun 'Gwe-ddarllediadau Bro Aled' ar y dudalen flaen y wefan, bod modd i chi wyllo a gwranddo ar yr oedfaon eraill a ddarlledwyd ar-lein dros gyfnod y pandemig.)

- **Sgwrs a Gweddi** am 6:00 yr hwyr. Cysylltwch â Mair yn nes i'r amser i gael gwybod a fydd y cyfarfod mewn adeilad neu ar ZOOM.

Dydd Sul, Chwefror 13^{eg}

- **Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yn Llanfair am 11:00** o dan arweiniad Rhodri. Bydd **Ysgol Sul y plant** yn cydreddeg â'r gwasanaeth yn Llansannan.
- **Oedfa yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00** o dan arweiniad Mr Alun Jones.
- **Oedfa yn Henllan am 9:30 ac yn Llanefydd am 11:00** o dan arweiniad Mr Celfyn Williams.
- **Ysgol Sul y plant yn Henllan** am 10:30.
- **'Gwreiddiau'** – Mae croeso i ni i ymuno gyda Bro Dinbych ar gyfer amser o addoliad yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Mae'n addas i bob oed, ac mae darpariaeth dwyieithog. Archebwch le trwy glicio ar y ddolen [yma](#) neu cysylltwch â Mair.

Coleg y Bala

- ⇒ **Chwalfa Chwefror** (i blant 8 – 11 oed): **Chwefror 18^{fed}– 20^{fed}**. Penwythnos yn llawn gemau gwirion, gweithgareddau gwyb, crefft, canu, ymlacio yn yr ystafell gemau ac i ddysgu am Iesu. Bydd trip ar y prynhawn Sadwrn hefyd. Mwy o fanylion isod. Archebwch le trwy glicio ar y ddolen [yma](#).
- ⇒ **Cwrs Ieuencid** (i bobl ifanc 11-14 oed): **Chwefror 25^{ain}– 27^{ain}**. Penwythnos o weithgareddau, chwaraeon, crefft, *chillio* gyda ffrindiau, *take away*, storïau o'r Beibl, a thrip i SC2, Rhyl. Mwy o fanylion isod. Archebwch le trwy glicio ar y ddolen [yma](#).

Y gost ar gyfer y cyrsiau yw £66 yr un (neu £33 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu), ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau. **Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn.** Os nad yw'n bosibl i chi archebu arlein, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565.